# Cofnodion Grŵp Cynghorwyr Craffu Rhanbarthol Partneriaeth

**a Gynhaliwyd o Bell trwy MS Teams**

**Ddydd Llun 19 Mehefin 2023 am 10.00 am**

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd L R Jones (Chair) yn Llywyddu |

**Cynghorwyr**

Y Cyng. Lyndon Jones (Cynullydd Panel Craffu ar Berfformiad Addysg Abertawe)
Y Cyng. Peter Black (Cadeirydd Pwyllgor Rhaglen Graffu Abertawe)
Y Cyng. Huw Murphy (Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Ysgolion a Dysgu Sir Benfro)
Y Cyng. Carys Jones (Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin)
Y Cyng. Sue Allen (Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu ar Addysg a Phlant Sir Gaerfyrddin)

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Ian Altman | Swyddog Arweiniol Partneriaeth |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Arweiniol a Chyfarwyddwr Addysg yn Abertawe |
| Gwennan Schiavone | Ymgynghorydd Strategol Partneriaeth |
| Steven Richard-Downes | Cyfarwyddwr Addysg Sir Benfro |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu (Abertawe) |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law gan Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg Sir Gaerfyrddin

---

## 19 Datganiad o Fuddiant

Ni chafwyd yr un datganiad o fuddiant.

## 20 Cofnodion a Llythyr(au) yn deillio o'r cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion a'r llythyr a oedd yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2023.

## 21 Amlinelliad o Agenda Cyd-bwyllgor Partneriaeth a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2023

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Arweiniol, Helen Morgan-Rees, yr eitemau ar agenda Cyd-bwyllgor Partneriaeth a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2023. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Byddai Cyd-bwyllgor Partneriaeth yn cwrdd deirgwaith y flwyddyn. Byddai'r canlynol yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf:
- Y llythyr gan Gadeirydd Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth ar 13 Chwefror 2023.
- Cyllideb ddrafft Partneriaeth ar gyfer 2023-24 a chynllun ariannol tymor canolig drafft ar gyfer 2023-24 i 2026-27
- Perfformiad partneriaeth 2022-23
- Cynllun Strategol/Cynllun Busnes Partneriaeth 2023-24; a
- Chofrestr Risg Partneriaeth

## 22 Cadeirydd y Cyd-bwyllgor a Chyfarwyddwyr o bob Cyngor

Roedd Cytundeb Cyfreithiol Partneriaeth yn pennu y dylai Cadeirydd y Cyd-bwyllgor a’r tri Chyfarwyddwr Addysg fod yn bresennol yng Ngrŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth o leiaf unwaith y flwyddyn.

Rhoddodd y Panel groeso i'r Cynghorydd Darren Price, Cadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth, i’r cyfarfod. Roedd y Cynghorydd Price hefyd yn siarad ar ran Gareth Morgans, Cyfarwyddwr Addysg Sir Gaerfyrddin, yn ei absenoldeb. Diolchwyd hefyd i Helen Morgan-Rees, Cyfarwyddwr Addysg Abertawe, a Steven Richard-Downes, Cyfarwyddwr Addysg Sir Benfro, am fod yn bresennol.

***Cadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth***

Yn y lle cyntaf, rhoddodd y Panel wahoddiad i'r Cynghorydd Price roi barn ar y modd y mae'n gweld pethau’n dod yn eu blaen, ac i drafod a rhoi sicrwydd i’r Grŵp Cynghorwyr fod Partneriaeth yn gweithredu'n unol â’r Cytundeb Cyfreithiol a'i Gynllun Busnes, a bod ei amserlen yn cael ei rheoli mewn modd effeithiol. Dywedodd y Cynghorydd Price y canlynol:

- Cyn datblygu Partneriaeth, bu’r partneriaethau rhanbarthol yn rhai cymhleth ac anghyson. Yn y gorffennol, roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gydweithio ar draws awdurdodau lleol, a arweiniodd at fodel rhanbarthol. Er hynny, roedd Llywodraeth Cymru wedi datgan y byddai'r haen ganol o wasanaethau cymorth ar gyfer addysg yn cael ei hadolygu’n genedlaethol cyn bo hir ac y byddai Partneriaeth yn rhan o hynny.
- Datblygwyd y Cynllun Busnes a'r chwe blaenoriaeth cyfredol ar y cyd, ac felly roeddent yn seiliedig ar amcanion lleol.
- Byddai'r Cynllun Busnes newydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor ar 23 Mehefin, a byddai gan hwn bedair blaenoriaeth allweddol a fyddai hefyd yn seiliedig ar amcanion lleol.
- Roedd y Gofrestr Risg yn cael ei hadrodd i'r Cyd-bwyllgor a'r Grŵp Cynghorwyr Craffu ar ffurf eitem sefydlog.

- Roedd y Cynghorydd Price felly'n hyderus bod Partneriaeth yn gweithredu'n unol â'r Cytundeb Cyfreithiol a'i Gynllun Busnes, a'i fod yn cyflawni'n unol â'i amserlen. Ond byddai yna bob amser le i wella a hoffai weld y canlynol yn cael eu datblygu:
  - Mesur effaith Partneriaeth, a fyddai'n dangos allbwn a gwerth am arian yn eglur.
  - Bod ysgolion yn cael y cyfle i fynegi eu barn ar ei effeithiolrwydd. Hynny wedyn i gael ei ddefnyddio wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

***Y Cyfarwyddwyr Addysg***
Gofynnwyd i bob Cyfarwyddwr roi ei farn ar y modd yr oedd pethau'n mynd o ran ei Gyngor a pha heriau y mae'n eu hwynebu, a gofynnwyd am sicrwydd gan bob Cyngor ei fod yn credu bod Partneriaeth yn gweithredu'n unol â’r Cytundeb Cyfreithiol a'i Gynllun Busnes, a bod ei amserlen yn cael ei rheoli mewn modd effeithiol.

*Helen Morgan-Rees (Cyfarwyddwr Addysg Abertawe)*
Roedd yr heriau o safbwynt Abertawe yn cynnwys y canlynol:
- Y modd i wneud y defnydd gorau o'r cyllid a ddeuai i mewn, gan gynnwys rhannu adnoddau fel nad oedd yna unrhyw danwariant.
- Gwerthuso perfformiad fel bod yr effaith a'r allbwn yn cael eu nodi.
- Dwyn pawb ynghyd.
- Llythrennedd a rhifedd: yr angen i ystyried pecyn cynhwysfawr cynhwysol i wella’r sgiliau hyn.
- Cael barn cwsmeriaid a defnyddio hynny i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Roedd o'r farn bod y Cynllun Busnes newydd yn gliriach; bod iddo lai o flaenoriaethau ond bod y rheiny'n rhai priodol, ac y byddai'n cydblethu’n dda â gwaith yr awdurdodau lleol. Roedd yn hapus o weld Partneriaeth yn datblygu ac yn gwrando ar farn pob rhanddeiliad. O safbwynt Abertawe, roedd Partneriaeth yn gweithredu'n unol â'r Cytundeb Cyfreithiol, ei Gynllun Busnes a'i amserlen.

*Steven Richard-Downes (Cyfarwyddwr Addysg Sir Benfro)*
Roedd Sir Benfro yn wynebu llawer o heriau tebyg i Abertawe, ond soniodd hefyd am y canlynol:
- Bod yr ystod o gymorth a gynigid yn ddefnyddiol ond bod angen mireinio’r arlwy hwnnw ymhellach.
- Bod datblygiad pellach mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd yn faes allweddol.
- Bod 'annibyniaeth disgyblion a gwerthuso eu gwaith eu hunain' wedi bod yn thema mewn arolygiadau diweddar gan Estyn, ac felly ei bod yn ofynnol i ni blethu hynny i'r Cynllun Busnes.
- Bod yn rhaid gwneud yn siŵr bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n dda ac er lles gorau ysgolion. Roedd yn ofynnol datrys unrhyw faterion o ran dyblygu adnoddau.
- Bod y Cwricwlwm newydd yn her barhaus.
- Yr holl amrywiaeth o fentrau a oedd ar gael a'r ymdrech ddi-baid ar gyfer Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r mentrau hynny. Roedd yn rhaid i hyn gael ystyriaeth ofalus neu byddem yn parhau i gael problemau llwyth gwaith. Roedd yn ofynnol ystyried y modd yr oeddem yn rheoli’r hyn a ddeuai dros y

gorwel o du Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn, cyfnod a oedd eisoes wedi gweld newid enfawr, fel na fyddai ysgolion yn cael eu gorlwytho.

- Ei bod yn ofynnol mesur effeithiolrwydd ac effaith Partneriaeth yn uniongyrchol yn yr ystafell ddosbarth.

Cytunai fod y Cyd-gytundeb yn gweithio'n dda a bod Partneriaeth yn gwneud y pethau iawn ar gyfer ysgolion.

Roedd y Grŵp Cynghorwyr yn falch o glywed bod gan bawb ddarlun cadarnhaol o Partneriaeth ar y pryd, ond gan hefyd gydnabod bod llawer o heriau'n dal i fodoli i Partneriaeth a phob un o'r tri awdurdod lleol. O'r drafodaeth hon, roedd y Cynghorwyr yn teimlo'n dawel eu meddwl fod Partneriaeth yn gweithredu'n unol â'r Cytundeb Cyfreithiol a'i Gynllun Busnes, a bod ei amserlen yn cael ei rheoli mewn modd effeithiol.

## 23 Y Proffil Risg Diweddaraf

Rhoddodd Ian Altman ddiweddariad i'r Grŵp Cynghorwyr ar y proffil risg cyfredol a dywedodd wrthynt ei fod yn seiliedig ar Gynllun Busnes 2022-2023. Byddai'r proffil risg yn newid fymryn yn fuan yn seiliedig ar y Cynllun Busnes newydd, a byddai'n adlewyrchu blaenoriaethau'r cynllun hwnnw.

Codwyd y mater unwaith eto ynghylch amseriad cyllid grant Llywodraeth Cymru. Clywodd y Cynghorwyr fod y grant yn aml yn dod i law wedi i beth amser fynd heibio yn y chwarter yr oedd yn ei ariannu.

Gofynnodd y Grŵp am eglurder o ran rôl Partneriaeth o glywed bod y risg hon yn un hanesyddol a bod gan Bartneriaeth bellach swyddogaeth eglur iawn wedi'i phennu yn y Cynllun Busnes newydd, gan gynnwys pedwar maes blaenoriaeth.

Roedd y pedair blaenoriaeth strategol lefel uchel hyn ar gyfer Partneriaeth yn 2023-2026 yn cynnwys:

1. Cefnogi pob ysgol a lleoliad i gynllunio a darparu ei chwricwlwm/gwricwlwm ei hun, cwricwlwm teg ac o safon uchel.
2. Ymgorffori egwyddorion a phrosesau sy'n sail i degwch addysgol ym mhob ysgol a lleoliad.
3. Cefnogi pob ysgol a lleoliad i ddatblygu ystod o sgiliau ymchwil ac ymholi yn rhan allweddol o’i (d)dysgu proffesiynol.
4. Darparu llwybrau gyrfa ar gyfer arweinwyr, ymarferwyr a staff cymorth ar bob lefel o’r system.

Dywedwyd wrth y Grŵp Cynghorwyr y byddai llwyddiant yn dibynnu ar Gydweithio, Ymgysylltu a Gwerthuso.

## 24 Edrych ar Berfformiad Blaenoriaeth 2 Partneriaeth – Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel – gwella'r addysgu a'r dysgu yn ein hysgolion

Yn rhan o'i raglen waith, cytunodd y Grŵp Cynghorwyr i edrych ar berfformiad un flaenoriaeth wahanol o blith chwe blaenoriaeth wreiddiol Partneriaeth ym mhob cyfarfod. O ganlyniad, rhoddodd y Grŵp Cynghorwyr groeso i Gwennan Schiavone, Ymgynghorydd Strategol Partneriaeth, i'r cyfarfod. Cyflwynwyd adroddiad a oedd yn

amlinellu’r cynnydd o ran Blaenoriaeth 2: Datblygu darpariaeth addysg o safon uchel – gwella'r addysgu a'r dysgu yn ein hysgolion.

Ymdriniwyd â’r pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Dysgu proffesiynol, ymholi ac ymchwil i wireddu’r cwricwlwm a bod dan arweiniad yr ysgol.
- Dysgu proffesiynol ar gyfer datblygu ymarfer a myfyrdod.
- Y grant llythrennedd a rhifedd/Cynllun Llafaredd Cynradd i Gymru.
- Cymorth rhanbarthol ar gyfer ieithoedd modern/i feithrin gallu yn y sector cynradd.
- Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol/sgiliau codio a digidol.
- Y Gymraeg mewn Addysg.
- Gwelliant ôl-16.

Mynegodd y Grŵp Cynghorwyr y pwyntiau a ganlyn:

- Hanfod y Prosiectau Ymholiad Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP). Clywodd y Cynghorwyr mai ysgolion yn gwneud eu darn eu hunain o ymchwil, gan weithio gyda'r Prifysgolion a Partneriaeth, oedd y prosiectau hyn.  Roedd canlyniad y rhain hefyd yn cael ei rannu ar Hwb fel y gellid sicrhau budd ehangach. Gofynnodd y Grŵp Cynghorwyr am gael gweld rhai o’r rhain, a byddent yn cael eu cynnwys yn rhaglen waith y Grŵp Cynghorwyr o fis Chwefror 2024 ymlaen.

**25 Rhaglen Waith Craffu Partneriaeth**

Cytunodd Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth ar ei gynllun gwaith ar gyfer y 12 mis canlynol, ynghyd â’r diwygiadau i’w gysoni â blaenoriaethau Cynllun Busnes newydd Partneriaeth, a chytunodd i brosiect ymchwil ac ymholi NPEP gael ei gynnwys ym mhob cyfarfod.

**26 Trafod y pwyntiau ar gyfer y llythyr at Gadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth a fyddai'n deillio o'r cyfarfod hwn**

Cytunodd y Grŵp Cynghorwyr Craffu i gynnwys eu barn ar yr eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwn mewn llythyr at Gadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am